ATODLEN 2

Monitro

# RHAN 4

## Amrywio gofynion monitro ar gyfer paramedrau Grŵp A a Grŵp B

### Amrywio amlder samplu

**5.**—(1) Caiff awdurdod lleol leihau'r amlderau samplu sy'n ofynnol ar gyfer paramedr (ac eithrio ar gyfer *Escheria coli (E. coli)*) o dan Ran 1 neu 2 o'r Atodlen hon ar yr amod—

(a) bod y canlyniadau o samplau a gymerwyd mewn cysylltiad â'r paramedr hwnnw a gasglwyd ar adegau rheolaidd dros y 3 blynedd flaenorol oll yn is na 60% o'r gwerth paramedrig;

(b) bod canlyniadau asesiad risg yn cael eu hystyried, a bod yr asesiad risg hwnnw yn dangos na ellir yn rhesymol ragweld bod unrhyw ffactor yn debygol o achosi dirywiad yn ansawdd y dŵr sydd i'w yfed gan bobl;

(c) bod data a gesglir wrth gyflawni ei rwymedigaethau monitro o dan y Rhan hon yn cael eu hystyried; a

(d) bod o leiaf un sampl yn cael ei chymryd fesul blwyddyn.

(2) Caiff awdurdod lleol bennu amlder samplu uwch ar gyfer unrhyw baramedr os yw'n ystyried bod hynny'n briodol gan ystyried canfyddiadau unrhyw asesiad risg.

### Amrywio paramedrau

**6.**—(1) Caiff awdurdod lleol beidio â monitro paramedr (ac eithrio *Escheria coli (E. coli)*) y mae fel arall yn ofynnol ei fonitro o dan Ran 1 neu 2 o'r Atodlen hon ar yr amod—

(a) bod y canlyniadau o samplau a gymerwyd mewn cysylltiad â'r paramedr hwnnw a gasglwyd ar adegau rheolaidd dros y 3 blynedd flaenorol oll yn is na 30% o'r gwerth paramedrig;

(b) bod canlyniadau asesiad risg yn cael eu hystyried, a bod yr asesiad risg hwnnw yn dangos na ellir yn rhesymol ragweld bod unrhyw ffactor yn debygol o achosi dirywiad yn ansawdd y dŵr sydd i'w yfed gan bobl; ac

(c) bod data a gesglir wrth gyflawni ei rwymedigaethau monitro o dan y Rhan hon yn cael eu hystyried.

(2) Caiff awdurdod lleol fonitro ar gyfer priodoleddau, elfennau, organebau neu sylweddau eraill nad ydynt wedi eu cynnwys fel paramedr os yw'n ystyried bod hynny'n briodol gan ystyried canfyddiadau unrhyw asesiad risg.